| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC)** |
| DYDDIAD: | **7 Hydref 2022** |
| PWNC: | **Secondiad i rôl Prif Weithredwr y CBC** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr y CBC, a**<br>**Dafydd Edwards, Swyddog Arweiniol Prosiect y CBC** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

**Penodi Alwen Williams yn Brif Weithredwr rhan-amser y CBC, ar sail secondiad dros dro, hyd nes caiff y swydd ei hadolygu eto gan y CBC ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2022/23.**

**Dirprwyo'r grym i Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd gadarnhau trefniadau ffurfiol ar gyfer y secondiad.**

---

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â phenodi Prif Weithredwr dros dro Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (y CBC).

Yn ei gyfarfod ar 17 Mehefin 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd drefniadau priodol gan gynnwys penodi Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd, i rôl Prif Swyddog Gweithredol y CBC ar sail dros dro, yn weithredol hyd nes i'r trefniadau gael eu hadolygu gan y CBC.

Yn ei gyfarfod ar 22 Gorffennaf 2022, gwnaeth Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd adolygu rôl eu Prif Weithredwr ac, ar ôl ystyried yr opsiynau, penderfynwyd i gyflwyno cais i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y Cyd Bwyllgor Corfforedig o leiaf hyd at 31 Mawrth 2023.

Dewiswyd yr opsiwn o gyflwyno'r cais yma i'r Bwrdd Uchelgais gan ei fod yn debygol bydd y Bwrdd Uchelgais yn cael ei ymgorffori'n rhan o'r CBC, byddai cost sylweddol uwch pe bai swydd Prif Swyddog annibynnol wedi'i greu, a gan nad oes digon o amser ar gael i un o'r 6 Phrif Weithredwr awdurdod lleol oruchwylio'r gwaith o ddatblygu'r CBC.

Mae'r Rheoliadau Sefydlu yn caniatáu hyblygrwydd sut y gall y CBC gyflogi staff, gan gynnwys swyddogion statudol. Gall y CBC eu cyflogi'n uniongyrchol, neu gall wneud trefniadau gydag awdurdodau cyfansoddol i'w staff gael eu rhoi wrth law'r CBC. Felly, gall y swydd hyn gael ei secondio rhan-amser o awdurdod lletya'r BUE.

## 2. Penderfyniad a gofynion y Bwrdd Uchelgais

Roedd angen i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gymeradwyo'r opsiwn yma. Yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2022, cytunodd y Bwrdd Uchelgais i ryddhau rhan o amser eu Cyfarwyddwr Portffolio i gyflawni rôl Prif Weithredwr y CBC.

Yn unol â'r disgwyl, mae nifer o agweddau y angen sylw o safbwynt y Bwrdd Uchelgais, megis 'ôl-lenwi' rhan o rôl y Cyfarwyddwr Portffolio i greu'r capasiti angenrheidiol.

Bydd angen i'r CBC roi cyfraniad ariannol i'r BUE er mwyn rhoi'r hyblygrwydd iddynt allu gwneud yr addasiadau mewnol sydd ei angen arnynt o ganlyniad i'r secondiad rhan-amser hwn (er mwyn i'r BUE allu parhau i gyflawni'r Rhaglen Twf yn effeithiol).

Bydd y Bwrdd Uchelgais yn parhau'n gyflogwr cytundebol i Alwen Williams, a bydd y CBC yn talu ffi i'r Bwrdd Uchelgais am ei secondiad. Gofynnir i'r CBC awdurdodi Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd i drefnu hyn o fewn yr hyblygrwydd sydd yng nghyllideb 2022/23 y CBC.

## ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd gadarnhau secondiad rhan-amser Alwen Williams i rôl Prif Weithredwr y CBC, yn unol â'r penderfyniad a geisir ac o dan y telerau a amlinellir uchod.**

## BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

### Swyddog Monitro

Wrth i'r CBC gael ei sefydlu mae elfen drosiannol yn y gwaith, yn arbennig felly o safbwynt y gyd berthynas gydag Uchelgais Gogledd Cymru. Gyda cyd-syniad y Bwrdd Uchelgais i gais y CBC am ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio, mae modd mynd ati gyda'r penodiad. Fel y nodir yn yr adroddiad, mae trefniadau dros dro yn cael eu cydnabod fel rhan priodol o'r tirwedd wrth i'r CBC ymsefydlu.

### Swyddog Cyllid Statudol

Rwyf wedi gweithio gyda'r awdur i baratoi'r adroddiad hwn ac rwy'n cadarnhau'r cynnwys.